

Fforwm Merched Mewn Amaeth 2016

Ysbrydoli, ysgogi, galluogi...

Women in Agriculture Forum 2016

Inspiring, motivating, empowering...



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO



Fforwm Merched mewn Amaeth

29 Medi 2016

Canolfan yr Aelodau, Maes Sioe Frenhinol Cymru



Adroddiad Gwerthuso

Cynnwys

	Tud
Cefndir.....	1
Presenoldeb.....	2
Rhaglen.....	3-5
Casgliad - Camau Nesaf.....	6
Atodiad 1 – Nodiadau estynedig trafodaethau / canlyniadau'r gweithdai.....	7-11
Atodiad 2 – Ymateb i 'Grwpiau Ôl Brexit'.....	12
Atodiad 3 – Adborth.....	13-14

Cefndir

Cynhaliwyd fforwm Merched mewn Amaeth eleni yn adeilad eiconig Canolfan yr Aelodau ar Faes Sioe Frenhinol Cymru yn Llanelwedd a denwyd cynulleidfya dda. Mae'n adeiladu ar lwyddiant a phoblogrwydd y digwyddiad blynyddol hwn, a drefnwyd gyntaf gan Gyswllt Ffermio yn Aberystwyth yn 2009, ac a drefnwyd y llynedd yng ngogledd a de Cymru, yng Ngardd Fotaneg Cymru yn Llandeilo ac ym Mhortmeirion.

Roedd rhaglen y fforwm eleni'n anelu at gefnogi rôl merched sy'n gweithio mewn busnesau ffermio a choedwigaeth a'u hannog i chwarae rhan weithgar i helpu i foderneiddio'r diwydiant drwy symbylu newid a chynnydd. Mae hyn yn adlewyrchu nodau Deddf 'Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol' Llywodraeth Cymru, sy'n seiliedig ar gydweithio i sicrhau Cymru iachach, gydnherth a mwy cyfartal.

Prif nodau ac amcanion fforwm eleni oedd:


- sefydlu Fforymau Merched mewn Amaeth rhanbarthol newydd Cyswllt Ffermio
- rhoi adborth i helpu i ddylanwadu ar ddatblygu polisi amaeth newydd Llywodraeth Cymru i Gymru ar ôl Brexit.
- Helpu i ddatblygu rhaglen weithgareddau wedi ei theilwra i gefnogi merched mewn amaeth a'u galluogi i gyflawni eu rolau o fewn y diwydiant.
- Darparu cyfleoedd rhwydweithio a chefnogaeth barhaus i ferched mewn amaeth er mwyn hwyluso newid ac arloesedd o fewn y diwydiant a hybu entrepreneuriaeth.

Presenoldeb

Cofrestrodd 160 oedd yn golygu bod cynulleidfa lawn yng Nghanolfan yr Aelodau.

Gwahoddwyd yr holl gynrychiolwyr i ymuno â'r Fforymau Merched mewn Amaeth rhanbarthol newydd a fydd yn helpu i ddylanwadu ar bolisi amaeth newydd Llywodraeth Cymru ar ôl Brexit. Cwblhaodd cyfanswm o 64 o gynrychiolwyr daflenni'n mynegi diddordeb yn hyn, sy'n golygu bod yr ymgyrch recriwtio sydd bellach ar y gweill wedi cael dechrau da. (Gweler Atodiad 2 i gael gwybodaeth am eu lleoliadau)

Roedd y rhai a oedd yn bresennol yn y digwyddiad yn cynrychioli nifer o wahanol feysydd a sectorau ffermio. Dangosodd ffurflenni gwerthuso fod 66% o'r cynrychiolwyr yn ffermwyr gyda 12% arall yn cynrychioli'r rhan fwyaf o brif sefydliadau rhanddeiliaid amaethyddol yng Nghymru (gweler y siart isod).



Rhaglen

Croeso

Croesawodd Rhian Duggan, cyn lywydd Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru, y cynrychiolwyr i'r digwyddiad, a rhoddodd sgwrs ddiddorol am ei bywyd fel ffermwraig, gwraig, mam a'i gwahanol rolau yn ystod y blynyddoedd gyda'r Gymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru.

Cyfeiriodd hefyd at y gefnogaeth un-i-un 'amhrisiadwy' yr oedd ei theulu wedi ei derbyn gan Cyswllt Ffermio pan benderfynodd y teulu arallgyfeirio i gynhyrchu dofednod tua chwe blynedd yn ôl a'r cysylltiadau pwysig rhwng Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru, Llywodraeth Cymru a Cyswllt Ffermio ac yn arbennig Rhaglen Arweinyddiaeth Wledig yr Academi Amaeth.

Cyfeiriodd Rhian hefyd at bwysigrwydd cynllunio busnes o fewn busnes ei theulu ei hun, gan gysylltu hyn â'r gefnogaeth sydd ar gael i fusnesau ffermio a choedwigaeth yng Nghymru gan Cyswllt Ffermio, ac a adlewyrchir o fewn Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru, sydd fel yr eglurodd, yn meddu ar gynllun busnes a strategaeth sy'n sicrhau bod y Gymdeithas yn nodi a manteisio ar bob cyfle posibl i sicrhau elw o fuddsoddi, gan ddefnyddio ei adnoddau niferus drwy gydol y flwyddyn.

Prif anerchiad - Lesley Griffiths, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig

Lesley Griffiths, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig a draddododd y prif anerchiad yn gynnar yn y prynhnawn, pan gymeradwyodd 'merched mewn amaeth' am y cyfraniad pwysig iawn y maen nhw'n ei wneud i'r fferm deuluol a'r diwydiant amaeth yng Nghymru, gan gyfeirio atynt fel yr 'arwyr diglod'.

Cyfeiriodd y Gweinidog at ei gweledigaeth o gael diwydiant amaeth modern, proffesiynol a phroffidiol, gan ymgorffori diwylliant o ddatblygiad proffesiynol parhaus a gwell ffocws busnes. Dywedodd fod merched mewn amaeth yn hollbwysig i wireddu'r weledigaeth honno ac mai merched yn aml yw'r grym sy'n gyrru cynlluniau busnes ac agweddau ariannol y fferm.

Dywedodd y Gweinidog mai un o'r prif bethau yr oedd yn gobeithio a fyddai'n deillio o'r fforwm oedd y byddai'r cynrychiolwyr yn y digwyddiad, ac yn wir, merched sy'n gweithio yn y diwydiant drwy Gymru, yn ymuno â'r Fforymau Merched mewn Amaeth newydd. Byddai adborth o'r rhain yn helpu i ddylanwadu ar bolisi amaeth newydd y Llywodraeth ar ôl Brexit.

Nod y Gweinidog ar gyfer y dyfodol oedd y byddai merched yn parhau i ysgogi newid, arloesi a moderneiddio ac mae'r Gweinidog yn bwriadu rhoi'r gefnogaeth angenrheidiol i hwyluso hyn.

Dyweddodd fod mentrau fel Cyswllt Ffermio'n canolbwyntio'n helaeth ar drosglwyddo gwybodaeth a datblygu sgiliau a bod hyn yn hanfodol er mwyn meithrin mwy o gapasiti yng Nghymru. Cyfeiriodd y Gweinidog hefyd at werth y gweithdai ymgysylltu â rhanddeiliaid diweddar a chyfleoedd eraill lle'r oed wedi gallu clywed drosti'i hun y problemau a oedd yn effeithio ar ffermwyr drwy Gymru.

Prif Siaradwraig - Alwen Williams, Cyfarwyddwraig BT Cymru - 'Fy stori arweinyddiaeth'

Disgrifiodd Alwen Williams, sy'n gyfathrebwraig fedrus, ei siwrnai bersonol o'i chyfnod yn tyfu i fyny yng Ngogledd Cymru, yn unig ferch ar fferm deuluol lle'r oedd lleisiau ei brodyr fel arfer i'w clywed uwchlaw ei llais hi, at yr amser yr ymunodd â BT i wneud swydd sylfaenol, ac i'w rôl heddiw fel un o brif swyddi BT yng Nghymru.

Trwy rym penderfyniad a gwaith caled, trwy ymddiried yn ei greddf a'r hyder i ddysgu yn sgil ei phrofiadau daeth yn berson cryfach a hyn sydd wedi'i galluogi i gyrraedd ble mae hi heddiw. Roedd goresgyn rhwystrau a'r angen weithiau i newid canfyddiadau yn stori oedd yn canu cloch efo'r holl gynrychiolwyr.

Dyma rai o brif gynghorion Alwen i sicrhau llwyddiant i ferched mewn amaeth:

- Dylech sicrhau bod eich rhesymau dros newid yn glir a grymus, canolbwyntiwch a chadwch at y nod.
- Os ydych eisiau rhywbeth, gweithiwch yn galed i'w gael
- Crëwch fecanweithiau priodol i hwyluso newid h.y. y systemau a'r prosesau cefnogi
- Buddsoddwch mewn sgiliau a hyfforddiant
- Dylech wybod beth yw ystyr 'da' a gwnewch yn siŵr fod modelau rôl/mabwysiadwyr cynnar/arloeswyr/mentoriaid o'ch cwmpas
- Mae amynedd yn rhinwedd – mae newidiadau o ran diwylliant ac o fewn y sefydliad yn gallu cymryd blynyddoedd
- Mae merched yn wynebu mwy o heriau na dynion, byddwch yn ddi-droi'n ôl – mae angen i chi ddangos cryfder ac argyhoeddiad a chael gwared ar label 'merched sy'n arweinwyr' sy'n dal i gael ei ddefnyddio'n rhy aml.

Roedd y sesiwn cwestiwn ac ateb a ddilynodd yn cynnwys trafodaethau ynglŷn â rheoli amser; sicrhau nad yw ysgolion yn llywio merched oddi wrth swyddi 'dynion'; y peryglon o geisio 'plesio' a gwneud gormod; gwerthu Cymru 'wledig' fel lle cadarnhaol i fyw a gweithio a phwysigrwydd rhwydweithiau cefnogi.

Sesiwn rwydweithio ryngweithiol

Dan arweiniad Olwen Thomas, gwraig fusnes o Sir Benfro, sy'n adnabyddus am ei gwaith gydag Academi Amaeth Cyswllt Ffermio a chyn arweinydd Agrisgôp, cafodd yr holl gynrychiolwyr eu cynnwys yn y sesiwn rhwydweithio grŵp hwn a alwyd yn '*Ysbrydoli, ysgogi, galluogi – dod o hyd i'n lleisiau*'.

Gofynnwyd i bawb ystyried dau gwestiwn: "Beth fyddai'n gwneud gwahaniaeth i chi - o ran busnes, yn bersonol neu'n broffesiynol?" a "Beth allwch chi ei wneud/gyfrannu i sicrhau ei fod yn digwydd?"

Prif ganlyniadau/materion a drafodwyd

- Pwysigrwydd rhwydweithiau cefnogi / cyfathrebu ag eraill
- Cynllunio olynol a gwerth canolwr
- Rheoli amser
- Materion staffio a chael gafael ar staff dibynadwy o safon
- Cyllid, cael gafael ar arian a hyfywedd hirdymor
- Annog mwy o ferched i'r diwydiant/gwneud cais i golegau ac ar gyfer hyfforddiant

Pynciau gweithdai a phrif ganlyniadau

- 1. Nerys Llewelyn Jones** – cyfreithwraig materion gwledig a ffermwraig
'Datblygu polisi amaeth i Gymru ar ôl Brexit – safbwynt merched

Prif ganlyniadau/materion a drafodwyd

- Angen gwell gwybodaeth am yr opsiynau sydd ar gael ar ôl Brexit
- Angen creu brand Cymreig cryf
- Angen helpu ffermwyr ifanc/newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant

- 2. Manon Edwards Ahir** – Cyfarwyddwr cwmni cyfathrebu a marchnata dwyieithog
'Cysylltu ag eraill

Prif ganlyniadau/materion a drafodwyd

- Helpwch eich busnes i dyfu
- Cynyddwch eich rhwydwaith cefnogi
- Codwch broffil eich sector
- Rhannwch eich cynulleidfa

- 3. Elaine Rees Jones** – arweinydd Agrisgôp Cyswllt Ffermio, ymgynghorydd amaeth, arbenigwr arallgyfeirio
'Dechrau sgysiau anodd'

Prif ganlyniadau/materion a drafodwyd

- Cynllunio olynol
- Byddwch yn barod – gwnewch yn siŵr fod yr holl ffeithiau gennych cyn i chi ddechrau'r sgwrs/drafodaeth
- Byddwch yn barod i ddal ati
- Yn aml gall mentor annibynnol hwyluso trafodaethau teuluol agored

Casgliad - Camau Nesaf

Estynnodd Bethan Gwanas, cadeirydd y digwyddiad, yr awdur a'r bersonoliaeth deledu, wahoddiad i Eirwen Williams, cyfarwyddwr rhaglenni gwledig Menter a Busnes, sy'n darparu Cyswllt Ffermio a ariennir gan Lywodraeth Cymru, i ddod â'r digwyddiad i ben a dweud wrth y cynrychiolwyr beth yw'r 'camau nesaf', i sicrhau bod lefelau ymgysylltu a'r momentwm o'r diwrnod yn cael eu cynnal.

Bellach mae Cyswllt Ffermio wedi lansio ymgyrch recriwtio Cymru gyfan i sefydlu Fforymau Merched mewn Amaeth rhanbarthol newydd, un ar gyfer Gogledd Cymru, un ar gyfer De Orllewin Cymru ac un ar gyfer De Ddwyrain Cymru. Bydd y fforymau hyn yn canolbwyntio ar y rôl mae merched yn ei chwarae mewn busnesau ffermio, eu ffordd o fyw a 'nodau llesiant cenedlaethau'r dyfodol' -

1. Cymru Iachach
2. Cymru Gydnerth
3. Cymru fwy Cyfartal

Bydd y grwpiau'n trafod datblygu Polisi Amaeth i Gymru ar ôl Brexit o bersbectif merched ac i'r perwyl hwn byddant yn cael eu hannog i benodi swyddogion neu lefarwyr sy'n gallu cynrychioli'r grwpiau fel bo angen. Trefnwyd tri chyfarfod, un ym mhob rhanbarth ym mis Tachwedd, ac mae Dr Nerys Llewelyn Jones wedi derbyn y gwahoddiad i siarad ym mhob un o'r tri digwyddiad gan ddilyn i fyny o'r gweithdai a gynhaliwyd ganddi yn y Fforwm Merched mewn Amaeth.

Rhagwelir y bydd tua 15 o ferched yn mynd i bob digwyddiad. Trafodir y pynciau a gaiff eu trafod a pha mor aml y cynhelir cyfarfodydd yn y cyfarfod cyntaf a hwylusir gan Cyswllt Ffermio.

Atodiad 1 – Nodiadau estynedig trafodaethau / canlyniadau'r gweithdai

Datblygu polisi amaeth i Gymru ar ôl Brexit – safbwynt merched Nerys Llewelyn Jones		
Prif faterion / themâu		Crynodeb o brif bwyntiau a drafodwyd gan y grŵp
1.	Llwybr posibl i'r DU ar ôl Brexit: beth mae'r rhain yn ei olygu i amaeth yng Nghymru	• Angen gwybod beth yw'r opsiynau yn eu cyfanrwydd cyn gwneud y penderfyniad • Roedd y rhai a oedd yn bresennol yn fwy pryderus ynglŷn â beth sydd am ddigwydd ar lefel Cymru yn nhermau beth ddaw yn lle taliadau uniongyrchol, yn hytrach na'r ddêl fusnes y mae llywodraeth y DU yn ei negodi
2.	Arian sydd ar gael yng Nghymru ar gyfer Ardaloedd Gwledig – Ble fydddech chi'n gwario'r arian? Blaenoriaethu cyllid	• Cymorth i fusnesau newydd sy'n dechrau – cadw pobl yng nghefn gwlad Cymru • Cymorth i fusnesau bach a newydd-ddyfodiad i sicrhau cyflogaeth yng nghefn gwlad Cymru • Angen sicrhau bod y cyhoedd yn sylweddoli'r cysylltiad rhwng yr amgylchedd, yn ei chael • Band eang – gwell cysylltedd • Ynni adnewyddadwy • Creu brand 'Cymreig' newydd ar gyfer bwyd a thwristiaeth
3.	Cymorth sydd ar gael yn benodol ar gyfer amaeth	• Ffermwyr gweithgar – sicrhau bod cynhyrchwyr bwyd a deiliaid tir yn derbyn taliadau • Dwysau cynaliadwy • Cymorth i brosesu ac ychwanegu gwerth i gynnyrch: sicrhau cadwyn gyflenwi fyrrach a chreu mwy o swyddi lleol • Hysbysebu'n rhyngwladol – defnyddio ymgyrch hyrwyddo cig oen Awstralia fel enghraifft • Creu cynnyrch a brand Cymreig cryf • Marchnata ansawdd cynnyrch Cymreig, yn hytrach nag ar sail pris • Helpu ffermwyr ifanc/newydd-ddyfodiaid i ddechrau ffermio • Addysgu'r cyhoedd • Sicrhau bod llai o arian yn cael ei wario ar weinyddu prosiectau gwledig, symleiddio'r broses i ganiatáu mwy o arian i gael ei wario ar sicrhau effaith
4.	Opsiynau posibl i sicrhau dyfodol cynaliadwy ar gyfer ffermio yng Nghymru heb	• Cynhyrchu trydan drwy ffynonellau ynni adnewyddadwy • Mentrau cymunedol • Datblygu mentrau eraill • Twristiaeth – datblygu brand Cymru y gellir ei adnabod a'i barchu • Eco dwristiaeth

gymorth gan y Llywodraeth	• Gwrthbwyso carbon – gweithio gyda'r RSPB, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, cwmnïau preifat sydd eisiau cyflawni eu cyfrifoldebau Cymdeithasol a Chorfforaethol • Storio carbon a chreu coetiroedd • Addysg • Cytundebau tecach gydag archfarchnadoedd – sicrhau eu bod yn prynu a gwerthu cynnyrch lleol • Prosesu a gwerthu uniongyrchol o'r fferm • Creu brand newydd ar gyfer cig oen Cymreig a Chig eidion ar ôl statws PGI • Gorfodi trethi uwch am fwydydd sy'n cael eu mewnfario • Caffael bwyd lleol yn y sector cyhoeddus • Eithriadau treth y cyngor i ffermwyr • Rheoli symudiadau pobl • Rheoli llifogydd – cronni dŵr rhag gorlifo • Bod ffermwyr yn cynhyrchu a gofalu am dri pheth sy'n hanfodol i fywyd – bwyd, dŵr ac ocsigen
---------------------------	---

Dechrau sgysiau anodd - Elaine Rees Jones

Prif faterion / themâu		Crynodeb o brif bwyntiau a drafodwyd gan y grŵp
1.	Pam fod y cwestiwn yn anodd? Pa broblemau allai godi?	• Mae'r pwnc yn anodd – mae llif sgwrs yn un o'r pethau mwyaf cyffredin a mwyaf anodd • Rhwystrau cyfathrebu rhwng cenedlaethau - anodd cael y tad i siarad efo'r mab ac i'r gwrthwyneb • Ofn, yr angen i fod yn ddewr, pryder • Gwneud tybiadau – tybio bod yr ateb yn mynd i fod yn un negyddol • Anodd cyfaddef i rywun bod angen help arnoch • Trafodaethau ariannol yn anodd • Clywed beth mae eraill yn ei feddwl • Technoleg / cyfryngau cymdeithasol – pobl ddim yn arfer cynnal sgysiau bellach • Poeni am ymateb rhywun arall • Mae'r busnes yn cael ei redeg o gartref y teulu sy'n ei gwneud yn anos cynnal cyfarfodydd busnes • Y teulu yng nghyfraith yn cael eu hystyried fel rhai sy'n codi twrw "dydan ni ddim yn gwneud pethau fel yna yn ein tŷ ni" • Gwrthdaro rhwng personoliaethau • Emosiynau • Amseru yn broblem – gall amser car helpu • Syndrom estrys – pen yn y tywod
2.	Sut allwn ni baratoi ar gyfer y sgwrs	• Gallwn neilltuo amser i drafod a chreu'r lleoliad priodol • Gwnewch yn siŵr eu bod yn ymwybodol bod arnoch angen cael sgwrs • Gwnewch yn siŵr fod yr holl ffeithiau gennych cyn dechrau'r sgwrs – lluniwch gynllun yn eich pen • Sgwrsiwch efo chi eich hun yn y car • Lluniwch agenda • Meddyliwch am y canlyniad yr ydych yn anelu ato • Ysgrifennwch y pethau o blaid ac yn erbyn, gan eu hystyried gyda'i gilydd a chael sgwrs lly'n gafael yn y llwy bren sy'n cael siarad • Siaradwch o'r galon • Byddwch yn bositif – os ydych yn meddwl yr aiff popeth yn gawlach, bydd yn siŵr o wneud • Byddwch yn barod i beidio â chael hyd i'r atebion y tro cyntaf y cewch chi sgwrs • Cadwch yn sobor! • Gwnewch yn siŵr na fydd unrhyw un yn tarfu arnoch h.y. ffôn yn canu • Ystyriwch emosiynau pobl eraill – yn aml ei gartref ef ydi o, ei rieni ef ydych chi'n eu trafod • Gwnewch eich gorau i glywed eu safbwynt nhw • Gwerthfawrogwch eu bod yn brysur, bod ganddynt wahanol flaenoriaethau i ni – yn aml mae dynion yn euog o gulni
3.	Beth mae angen i	• Gwrthdaro • Tynnu'n groes

	ni geisio ei osgoi	• Dadleuon • Gweiddi • Agwedd negyddol • Beio • Mynd ar gyfeiliorn • Peidio â gwrando
4.	Y dewis arall	• Gallwch roi eich pen yn y tywod • Gwneud dim – fydd yn arwain at ffrwydrad yn y pen draw! • Pryd? Os yw'n bosibl, gallwch adael i bethau setlo, arfer â'r peth, ei dderbyn a symud ymlaen • Gwahodd rhywun atoch – gadael iddyn nhw ofyn y cwestiynau anodd • Yn aml mae clywed rhywbeth gan rywun y tu allan i'r busnes yn gallu cael mwy o effaith • Cyfryngwr / mentor / canolwr

Cysylltu ag eraill - Manon Edwards Ahir

Prif faterion / themâu		Crynodeb o brif bwyntiau a drafodwyd gan y grŵp
1.	Cwis - Tirlun cyfryngau cymdeithasol a chyfryngau Cymru	• Roedd pawb a oedd yn bresennol wedi synnu bod cylchrediad uwch gan y South West Evening Post na'r Western Mail. • Ydi ansawdd / cryfder band eang sydd ar gael mewn ardaloedd gwledig yn addas i redeg ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol? • Mae Facebook yn arf pwerus, yn arbennig ymysg merched • Mae creu cymunedau ar-lein yn arf marchnata hanfodol
2.	Pam cysylltu?	• Helpu eich busnesau i dyfu • Gall creu rhwydweithiau a chymunedau newydd arwain at fwy o gwsmeriaid – mae rhannu gwybodaeth yn allweddol • Mae cymunedau arlein yn ffordd effeithiol o gael adborth a gwerthu cynnyrch • Cynyddu eich rhwydwaith cefnogi • Codi proffil y sector
3.	Gyda phwy ydych chi'n cysylltu? Pwy yw eich cynulleidfaoedd?	• Defnyddwyr, Cyfoedion, Ffermwyr, Gwneuthurwyr Polisi, Darpar Staff, Cynulleidfaoedd y Farchnad, Cyfryngau, Pobl ifanc / Myfyrwyr, Pobl y Lifrai, Ymwelwyr, Eich Cymuned, Teulu, Cydweithwyr, Clybiau a Chymdeithasau • Rhannwch eich cynulleidfa – Ymddygiadol; Demograffig; Daearyddol, Agwedd • Mae rhannu'n grwpiau llai'n hanfodol i ddeall eich marchnad darged • Ysbryd cymunedol – sefydlu cyfranogiad; ysgogi syniadau newydd; manteisio ar bartneriaethau
4.	Sut i ryngweithio â'ch cynulleidfaoedd	• Mae gwefannau a blogiau'n ffenestri siop effeithiol ac mae'n bosibl cadw'r wybodaeth yn gyfredol / fyw • Mae cyfryngau cymdeithasol yn cynyddu mewn poblogrwydd – Facebook, Twitter ac Instagram yw'r tri phrif gyfrwng • Dulliau eraill yw Cysylltiadau Cyhoeddus, Digwyddiadau, Cylchlythyrau, Cyhoeddiadau • Mae gofyn i gleientiaid sut wnaethon nhw glywed amdanoch yn ddangosydd effeithiol i wirio a yw eich dulliau presennol yn effeithiol
5.	Cysylltu'n ddigidol	• Helpu eich cynulleidfa – Darganfod; Defnyddioldeb; Ail-fyw profiadau • Cyfryngau cymdeithasol – Creu cynnwys • Pwysigrwydd lluniau a fideos • Cael hyd i ffeithiau a ffigyrau • Agor rhwydweithiau a chymunedau newydd • Y ffordd orau i gysylltu â phobl heb gyfrifiadur/mynediad at y rhyngwrdd – digwyddiadau wyneb yn wyneb, rhwydweithiau, mynychu digwyddiadau, cyhoeddiadau, papurau lleol • Mae pobl ifanc neu ganllawiau ar-lein yn effeithiol i ddarparu gwybodaeth

		'sut i' ddefnyddio Facebook i'r rhai y mae angen hyfforddiant sylfaenol arnynt
--	--	--

Atodiad 2 – Ymateb i ‘Grwpiau Ôl Brexit’

Mae'r map canlynol yn rhoi darlun daearyddol o'r 64 mynegiant o ddiddordeb a dderbyniwyd:



Atodiad 3 – Adborth

Dyfyniadau a gymerwyd yn ystod y digwyddiad

Sarah Lewis

Ffermwraig a chyn reolwraig banc o Lanrhaeadr-ym-mochnant

“Mae heddiw wedi bod yn addysgiadol iawn ac mae'n helpu i roi'r hyn y mae merched sy'n gweithio mewn amaeth yn ei wneud mewn persbectif ayb.

“Mae'n braf iawn gwybod bod merched yn cael eu cydnabod fel rhan greiddiol o'r sector amaeth. Mae gennym rôl bwysig, ac ni ddylem gael ein hystyried fel pobl sy'n gweithio ar y cyrion.

“Dydym ni ddim bob amser yn gwerthfawrogi bod pob un ohonom yn wynebu'r un cyfyngiadau a heriau. Mae heddiw wedi bod yn gyfle gwych i rwydweithio a'n helpu i oresgyn anawsterau gyda'n gilydd.

“Yn aml iawn merched sy'n arloesi sydd y tu ôl i gynlluniau arallgyfeirio. Am 23 mlynedd bûm yn rheoli banc. Heddiw, dw i wedi gadael y byd ariannol a dw i'n rheoli uned ddofednod!”

Charlotte Evans

Gwraig fferm o Bontarfynach

“Roedd Elaine yn wych, roedd pob un ohonom yn gallu uniaethu â phopeth a ddywedodd hi am ddechrau sgysiau anodd, yn arbennig cynllunio olyniaeth.

“Gwagedd, mamau, chwiorydd, merched – yn aml ni yw'r bobl orau i ymdrin yn sensitif â'r math yma o fater anodd”

Buddug Jones

Ffermwraig, cynrychiolydd gwerthiant ac aelod Agrisgôp o'r Bala

“Dw i a fy ngŵr newydd ddechrau ffermio, felly dw i'n teimlo mai ni yw dyfodol ein diwydiant. Nid yw merched yn cael digon o lais, a'r hyn yr ydw i wedi'i ddysgu heddiw yw er ein bod yn aml yn cael ein hystyried fel rhai sydd â dylanwad allweddol o fewn y teulu, mae'n bwysig ein bod yn weladwy ac yn cael llais y tu allan hefyd.

Dw i'n teimlo y bydd y Fforwm Merched newydd yn rhoi cyfle i mi sicrhau bod y genhedlaeth iau yn cael llais wrth i Lywodraeth Cymru gynllunio ei strategaeth amaeth newydd ar ôl Brexit. Dw i'n gobeithio y bydd hyn yn golygu y galla' i helpu i sicrhau bod pob busnes newydd sy'n dechrau gam yn nes at lle maen nhw angen bod. ”

Helen Howells

Ffermwraig ac entrepreneur o Lanwenog, Ceredigion

“Mae’n bwysig iawn. Mae rhwydweithio gyda merched sy’n wynebu’r un heriau ac ansicrwydd yn bwysig iawn. Yn arbennig wrth i ni symud ymlaen at gyfnod newydd ar ôl Bexit.

“Dw i wedi clywed cymaint o ferched heddiw’n bychanu eu llwyddiannau a’u rolau eu hunain. Bydd digwyddiadau fel hyn, yn benodol ar gyfer merched, yn helpu i newid yr agwedd honno – ‘dim ond gwraig fferm gyffredin ydw i’. Na, dydym ni ddim yn gyffredin o gwbl! Mae gan bob un ohonom lawer iawn i’w gyfrannu, y cyfan sydd ei angen arnom yw’r cyfleoedd a’r gefnogaeth i’n helpu.”

Anwen Hughes

Ffermwraig ddefaid o Lanarth, Ceredigion

“Mae heddiw wedi fy annog a rhoi rhagolwg mwy positif i mi. Dw i’n falch o’r cyfle i wneud yn siŵr bod merched yn cael llais, cyn i Lywodraeth Cymru amlinellu ei gynlluniau ar gyfer ein diwydiant ar ôl Brexit.”

Diwedd